# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYMALAU HEDDLU'R DREF 1847
## (ADRAN 21)
## GŴYL GWRW ABER 2025

---

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn canlynol o dan Adran 21 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 er mwyn Atal Rhwystrau ayb.
Rhwng 11:00 a 21:00 ddydd Iau 28 Awst, dydd Gwener 29 Awst a dydd Sadwrn 30 Awst 2025, oherwydd Gŵyl Gwrw Aber 2025, bydd y rhannau o'r ffyrdd a adwaenir fel Lôn Cambria, Aberystwyth yn Sir Ceredigion, dan eu sang a gall fod rhwystrau arnynt.
Mae Cyngor Sir Ceredigion yn unol â'r pwerau a roddir gan Adran 21, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 DRWY HYN YN GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO at bwrpas atal rhwystrau ar y cyfryw ffordd ar y cyfryw ddiwrnod y bydd yn rhaid cadw at y rheoliadau canlynol:-

1. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 3 a 4, bydd y rhannau hynny o'r ffordd a adwaenir fel Lôn Cambria, yn sir Ceredigion ar gau i bob cerbyd gan gynnwys beiciau pedal rhwng 11:00 a 21:00 ddydd Iau 28 Awst, dydd Gwener 29 Awst a dydd Sadwrn 30 Awst 2025.
2. Yn ddibynnol ar y darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 3 a 4, bydd y rhannau hynny o'r ffordd a adwaenir fel Stryd yr Undod, Aberystwyth yn Sir Ceredigion hefyd ar gau i bob cerbyd gan gynnwys beiciau pedal wrth y cyffyrdd â'r rhannau o'r ffyrdd a nodir yn erthygl 1 rhwng 11:00 a 21:00 ddydd Iau 28 Awst, dydd Gwener 29 Awst a dydd Sadwrn 30 Awst 2025.
3. Ni fydd darpariaethau erthygl 1 a 2 ond yn gymwys ar yr adegau ac i'r graddau y bydd y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yma wedi'u dangos gan arwyddion traffig neu stiwardiaid dynodedig.
4. Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 1 a 2 o'r gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir yng nghyswllt y digwyddiadau sydd yn rheswm i'r gorchymyn hwn, nac unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.
5. Mae'r ffordd arall fel a ganlyn: Ar gyfer traffig sy'n teithio i gyfeiriad y de-orllewin o Ffordd y Môr, teithiwch ar Ffordd y Môr i'r gyffordd â Rhodfa'r Gogledd. Parhewch ar Rodfa'r Gogledd i'r gyffordd â Stryd Thespis. Trowch i'r dde i Stryd Thespis gan barhau i Ffordd Alexandra hyd at y gylchfan gyntaf. Cymerwch yr ail droad oddi ar y gylchfan gan barhau ar Ffordd Alexandra hyd at yr ail gylchfan. Cymerwch yr 2$^{il}$ droad oddi ar y gylchfan i Dan Dre. Teithiwch ar hyd Dan Dre i'r gyffordd â Stryd y Bont. Trowch i'r dde i Stryd y Bont gan barhau i'r Stryd Fawr. Parhewch ar y Stryd Fawr i'r gyffordd â'r Ffynnon Haearn. Trowch i'r dde i'r Ffynnon Haearn gan barhau hyd y pwynt i'r de-orllewin o'r darn ffordd a gaewyd.

Cedwir mynediad i gerddwyr ar bob adeg.

Y gosb am fynd yn groes i'r Rheoliadau hyn yw dirwy ddim mwy na Mil o Bunnau.

Dyddiedig: 13 Awst 2025

Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Penmorfa, Aberaeron